# SchoolBeat.org



Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

## Gwanwyn 2016

The All Wales School Liaison Core Programme
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl gydweithiwr,

## Gobeithio eich bod wedi cael cyfnod Nadolig a Blwyddyn Newydd gwerth chweil!

**Mae rhifyn y Gwanwyn yn un diddorol sy'n llawn gwybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth arbennig am Gerbydau Di-fwg a'r gyfraith.**

## Cynnwys...


GWYBODAETH ARBENNIG

Cerbydau di-fwg ........ td 2-3

O dan y sbotolau – E-sigarets ........ td 4-5

Cadw dysgwyr yn ddiogel ........ td 6-7

Beth sy'n newydd?

Bagloriaeth Cymru ........ td 8

Diwrnod Rhyngrwyd Diogel 2016 ........ td 9


# Cerbydau di-fwg



**Mae bellach yn erbyn y gyfraith i ysmygu mewn car pan fydd rhywun o dan 18 oed yn bresennol.**

**Mae'r gyfraith wedi newid er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed mwg ail law.**

**Mae'r gyfraith newydd, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2015 yng Nghymru a Lloegr yn golygu bod yn rhaid i gar fod yn ddi-fwg os;**

- ydyw'n gaeedig
- os oes mwy nag un unigolyn yn y car a;
- bod un ohonynt o dan 18 oed.





## Beth yw'r troseddau?


- Mae'n drosedd i unrhyw un, o unrhyw oedran, ysmygu mewn car pan fydd rhywun o dan 18 oed yn bresennol.
- Mae hefyd yn drosedd i yrrwr, yn cynnwys gyrwyr dan hyfforddiant, beidio â stopio rhywun rhag ysmygu pan fydd rhywun o dan 18 oed yn bresennol.

## Pwy fydd yn gorfodi'r gyfraith?

- Yr Heddlu
- Swyddogion Gorfodaeth yr Awdurdod Lleol

## Beth yw'r gosb?

- Yr hysbysiad cosb benodol ar gyfer y ddau drosedd yw dirwy o £50.
- Bydd posibilrwydd y bydd rhywun sy'n cyflawni'r ddau drosedd yn cael dwy ddirwy.








## Beth am e-sigarets?

- Nid yw'r gyfraith newydd yn berthnasol i e-sigarets ar hyn o bryd.

**Am fwy o wybodaeth am y gyfraith newydd hon ewch i;**
**www.freshstartwales.co.uk**

# O dan y SBOTOLAU...
# E-Sigarets

## Beth yw e-sigarets?

Mae e-sigarets yn declynnau nad ydynt yn cynnwys tybaco ond sy'n cynhyrchu anwedd oddi ar nicotin sy'n toddi mewn propylene glycol neu glycerine. Maent wedi dod yn llawer mwy poblogaidd yn ddiweddar gyda 18% o ysmygwyr yn defnyddio e-sigarets yn 2014 h.y. tua 2.1 miliwn o bobl.

Mae nifer o bobl yn ystyried bod ysmygu e-sigarets yn llawer mwy diogel nac ysmygu sigarets cyffredin. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sy'n bodoli hyd yma o'r effeithiau iechyd hirdymor. Mae rhai olion o gemegau gwenwynig wedi eu darganfod mewn e-sigarets er yn lefelau llawer is na sigarets tybaco yn gyffredinol.



## Risgiau Posibl

Mae yna rai pryderon y gallai gweld pobl yn dynwared ymddygiad ysmygu mewn man cyhoeddus arwain at wneud ysmygu yn rhywbeth mwy derbyniol.



Mae ychydig o dystiolaeth prin sy'n dangos bod anwedd e-sigarets yn cynnwys rhai cemegau gwenwynig ond ar lefelau llawer is na mwg sigarets sy'n cael ei adnabod fel carcinogen.

> **"Gallai cyflwyniad e-sigarets fel ffordd ddiogel o ysmygu arwain at blant a phobl ifanc yn cael eu hunain yn gaeth i nicotin."**
>
> Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Defnydd o e-sigarets ymysg pobl ifanc






> **"Roedd y defnydd o e-sigarets yn gyffredin mewn rhai ardaloedd, gallai'r rhan fwyaf o ferched enwi o leiaf pum blas gwahanol o anwedd a oedd yn cynnwys ysgytlaeth mefus, gummy bear a bubble gum."**
>
> Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

# Rheoliadau sy'n rheoli'r defnydd o e-sigarets

Nid yw'n anghyfreithlon defnyddio e-sigarets mewn mannau cyhoeddus caeedig neu weithleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhai busnesau wedi penderfynu gwahardd y defnydd ohonynt.

18

Ym mis Hydref 2015, gwnaeth rheoliadau amddiffyn plant hi'n drosedd:

- **I adwerthwyr werthu sigarets electronig (e-sigarets) neu e-hylifau i rywun o dan 18 oed.**
- **I oedolion brynu (neu geisio prynu) cynnyrch tybaco neu e-sigarets i rywun o dan 18 oed.**

Fe wnaeth astudiaeth a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru yn 2014 ddarganfod bod merched mor ifanc ag 11 a 12 oed wedi profi defnydd o e-sigarets a bod modd iddynt eu cael gan ffrindiau, rhieni a siopau. Darganfuwyd hefyd bod merched a dyheadau isel a'r rhai nad oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol yn fwy tebygol o ysmygu neu ddefnyddio e-sigarets.



# Cadw Dysgwyr yn DDIOGEL?

Cyhoeddwyd arweiniad newydd gan Llywodraeth Cymru o'r enw **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel** ym mis Ionawr 2015 yn dilyn ymarfer ymgynghori llawn a chyhoeddus. Mae'n disodli 005/2008 – Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002.



**Fe ddylai pawb sy'n gweithio ym myd addysg rannu'r un nodau er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**




**Mae'n rhaid i ni i gyd weithio gyda'n gilydd a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel a bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt i gael bywyd hapus ac iach.**

## Egwyddorion Allweddol

**Mae angen i'n holl waith:**

- ganolbwyntio ar blant
- fod yn seiliedig ar ddatblygiad plant
- ganolbwyntio ar ganlyniadau
- fod ag agwedd gyfannol
- fod yn seiliedig ar gyfleoedd cyfartal
- wedi'i adeiladu ar gryfderau
- fod ag agwedd aml-asiantaeth
- fod yn broses barhaus
- fod yn seiliedig ar dystiolaeth
- fod ag ymwybyddiaeth o les plant
- gynnwys plant a theuluoedd

**Mae'r arweiniad Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Am fwy o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at keepinglearnerssafe@Wales.gsi.gov.uk**

# Cyfrifoldeb Pawb

**Fe ddylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sicrhau bod plant yn ddiogel rhag niwed. Dylid cymryd camau priodol os oes gennych unrhyw bryderon.**

Os oes gan unrhyw aelod o staff 'bryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys' am blentyn fe ddylent ddweud wrth yr **Unigolyn Diogelu Penodedig** (UDP) yn yr ysgol.




Fe ddylai pob ysgol sicrhau bod ganddynt ddatganiad ysgrifenedig sydd wedi'i gynnwys ar eu holl deunyddiau a dylid cael  dolen i'w polisi a gweithdrefnau amddiffyn plant.

**Gall y datganiad edrych fel hyn:**

> "Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a disgwylir i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn"

Os bydd plentyn yn dweud wrthoch eu bod nhw neu unigolyn ifanc arall yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, fe ddylech:

- Ddangos i'r plentyn eich bod wedi clywed beth maent yn ei ddweud a'ch bod yn eu cymryd o ddifrif.
- Annog y plentyn i siarad ond peidiwch â rhoi geiriau yn eu ceg na gofyn cwestiynau arweiniol.
- Peidiwch â thorri ar draws pan fydd y plentyn yn egluro beth sydd wedi digwydd.
- Peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd dro ar ôl tro.
- Eglurwch y camau sy'n rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n addas ar gyfer oedran a dealltwriaeth y plentyn.
- Peidiwch ag addo cadw hyn yn gyfrinach.
- Nodwch yr hyn sydd wedi'i ddweud gan ddefnyddio'r union eiriau os yn bosibl, cyn gynted ag y gallwch.
- Gwnewch nodyn o'r dyddiad, amser, lleoliad a phwy oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth.
- Ni ddylech siarad â'r unigolyn sy'n cael eu cyhuddo.

**Bydd plant yn siarad am eu problemau gyda phobl maent yn teimlo y gallant ymddiried ynddynt.**

Fe ddylai ysgolion ddangos eu bod yn fannau diogel.

Mewn perthynas â diogelu plant, gallwch gysylltu â'ch Swyddog Ysgolion am arweiniad a chyngor cyffredinol mewn perthynas â phrotocolau heddlu.

# Beth sy'n newydd?

## Gwnewch ni'n rhan o Fagloriaeth Cymru

**Rydym yn falch o allu cyhoeddi, ar y cyd â CBAC, bod gan yr AWSLCP frîff her wedi'i gymeradwyo o fewn Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen CA4. Mae hwn ar gael ar gyfer ei asesu o Fedi 2015 ymlaen.**

**Bydd yr her addysgu pobl ifanc ar beryglon trosedd ac anrhefn** yn annog disgyblion i ganolbwyntio ar gefnogi eu **Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY)** gyda phryderon ac anghenion bob dydd drwy weithgareddau sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth yn eu cymuned.






WELSH BACCALAUREATE
Key Stage 4
National/Foundation

Community Challenge
Wales Police Forces

Fel unigolyn neu mewn tîm gwahoddir disgyblion i wneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw yn eu cymuned yn gallu gwneud penderfyniadau cywir. Drwy weithio gyda'r **Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY)** bydd disgyblion yn ymchwilio ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar rai o'r materion peryglus sy'n effeithio ar gymdeithas heddiw.

Bydd disgyblion yn cynllunio ac yn trefnu sut byddant yn treulio 10 awr yn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn addysgu plant ieuengach er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n bodoli yn y gymuned leol drwy'r defnydd o gyflwyniad a gweithgareddau.

Bydd eich **Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY)** yn gallu darparu disgyblion â gwybodaeth ddiweddar am y peryglon sy'n gysylltiedig â materion megis defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, bwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, pobl ddieithr, diogelwch rhyngrwyd, arfau, defnydd o ffonau symudol, troseddau ceir, cydlyniant cymunedol a thrais domestig er mwyn gallu cwblhau'r her.




Ewch i adran athrawon ei gwefan am fwy o wybodaeth **www.schoolbeat.org** neu cysylltwch â Chydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru **mannon.williams@nthwales.pnn.police.uk**




**Siaradwch â'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) ysgolion am wersi a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Thema Diogelwch Rhyngrwyd.**

## Cyflwyniadau Gwasanaeth...

### Cynradd








### Uwchradd






# Gwybodaeth Ddiweddaraf!








Mae ein gwefan Schoolbeat yn cynnig gwybodaeth ddiweddar a pherthnasol ar gyfer **athrawon, disgyblion** a **rhieni.** Mae ysgolion o bob rhan o Gymru yn Hyper ddolennu i'n gwefan – byddem yn falch o allu cysylltu â gwefan eich ysgol chi



## http://www.schoolbeat.org/



Cyfrifon SchoolBeat Accounts

@schoolbeat

@swschoolbeat

@leadschoolbeat

@gwschoolbeat

@dpschoolbeat

@nwschoolbeat

## Dilynwch ni ar Twitter a 'Hoffwch' ni ar Facebook

